

Arolygiadau â Phwyslais Penodol o Ganolfannau Brechu Torfol (Dirybudd)

Ravens Court, Pen-y-bont ar Ogwr
a Chanolfan Fowlio Dan Do Cwm
Cynon, Aberpennar

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad arolygu: 03 – 04 Mawrth
2021

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n gwiriad ansawdd	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	16
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol	21
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol	22
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiadau â phwyslais penodol o ddwy ganolfan brechu torfol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 03 Mawrth 2021 a 04 Mawrth 2021. Ymwelwyd â'r canolfannau canlynol:

- Ravens Court, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AP
- Canolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon, Dyffryn Road, Aberpennar, CF45 4DA

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiadau â phwyslais penodol yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau roedd y gwasanaethau yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n gwiriad ansawdd

Roedd yn amlwg bod y bwrdd iechyd wedi gweithio'n galed ac yn gyflym i ddarparu lleoliadau dros dro a digon o gapasiti er mwyn cyflawni'r rhaglen brechu torfol.

Cawsom sicrwydd, er gwaethaf amgylchedd unigryw'r canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw, fod trefniadau priodol ar gyfer pob cam o'r broses frechu a bod gofal diogel yn cael ei ddarparu i'r cleifion.

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC adborth cadarnhaol iawn ar eu profiadau yn y canolfannau.

Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni ofyn am rai camau unioni brys yn ystod ein hymweliadau, a gwelsom fod lle i wella'r trefniadau llywodraethu sy'n ategu'r broses o barhau i gyflawni'r rhaglen yn ddiogel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y gwirfoddolwyr a'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a pharchus.
- Roedd modd cadw digon o bellter cymdeithasol yn y ddwy ganolfan, ac roedd y llif o gleifion yn effeithlon ac yn amserol yn y canolfannau.
- Roedd y cleifion yn cael eu hasesu i weld a oedd ganddynt symptomau COVID-19 cyn caniatáu iddynt ddod i mewn i'r canolfannau
- Roedd y brechlynnau'n cael eu storio'n briodol ac roeddent dan oruchwyliaeth staff diogelwch
- Roedd system effeithiol ar waith yn y ddwy ganolfan i baratoi a rhoi'r brechiad yn amserol
- Roedd y cleifion yn cael asesiadau priodol a gwybodaeth ddigonol cyn derbyn eu brechiad
- Roedd y brechwyr heb eu cofrestru y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo bod eu goruchwylwyr yno bob amser i drafod unrhyw bryderon a oedd ganddynt pan fo angen

- Roedd y brechwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol er mwyn bod yn gymwys i roi brechiadau i gleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwedduster, lle personol a phreifatrwydd y cleifion yn cael eu diogelu'n llawn wrth iddynt gael eu brechu
- Sicrhau bod y llawr yng nghanolfan Aberpennar yn ddiogel ac yn addas at y diben
- Gweld a yw'r cyfleusterau golchi dwylo i'r staff yn hwyluso arferion hylendid dwylo effeithiol
- Atgoffa'r staff i gadw at bolisi gwisg y bwrdd iechyd
- Adolygu'r gweithgareddau archwilio sy'n cael eu cynnal i gadw'r cleifion yn ddiogel
- Adolygu'r system sydd ar waith i gofnodi tymereddau'r oergelloedd yn gywir
- Adolygu'r cyfleusterau i sicrhau bod y cleifion yn cael preifatrwydd ac urddas os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf
- Ailwampio gweithdrefnau safonol y ddwy ganolfan er mwyn sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt yn gywir ar gyfer pob canolfan
- Rhoi mwy o gefnogaeth i'r uwch-aelodau o staff pan ofynnir iddynt weithio ac arwain mewn canolfannau eraill.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio'n gyflym i gynllunio a chyflawni rhaglen brechu torfol yn y rhanbarth i'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nodwyd nifer o fodelau cyflawni ar gyfer rhoi brechiadau, gan gynnwys timau symudol yn y gymuned, defnyddio meddygfeydd teulu a throi adeiladau'n ganolfannau brechu torfol.

Cafodd pedair canolfan brechu torfol eu sefydlu yn y lle cyntaf ac roeddent ar waith o fis Ionawr 2021 ymlaen. Roedd y rhain yn cynnwys un o'r canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw, sef Ravens Court ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Tua adeg yr arolygiadau â phwyslais penodol, roedd y pedair canolfan wedi rhoi tua 36,000 o frechiadau.

Yn dilyn hynny, agorwyd tair canolfan brechu torfol arall a dechreuwyd brechu cleifion ym mis Mawrth 2021; roedd y rhain yn cynnwys yr ail safle y gwnaethom ymweld ag ef, sef Canolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon yn Aberpennar.

Roedd y ddwy ganolfan yn rhoi ail ddos o frechlyn Pfizer-BioNTech i'r cleifion adeg ein harolygiadau â phwyslais penodol.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom wahodd y defnyddwyr gwasanaeth i gwblhau arolwg ar eu profiadau er mwyn sicrhau bod safbwynt y defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'n dull o arolygu. Gwnaethom ystyried a oedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn cael gwybodaeth amserol a hygyrch.

Gwnaethom ofyn i gleifion a oedd wedi cael eu brechiadau yn y canolfannau brechu torfol gwblhau arolwg ar-lein am eu profiadau. Roedd posteri yn y canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol AGIC yn hyrwyddo'r arolwg. Cafodd 35 o arolygon eu cwblhau gan gleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

At ei gilydd, roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn, a nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad rhagorol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cyfathrebu'n glir â nhw cyn yr apwyntiad.

Cytunodd pob un o'r ymatebwyr fod mesurau rheoli heintiau'n cael eu dilyn yn dda lle bo'n briodol, er enghraifft cadw pellter cymdeithasol, defnyddio hylif diheintio dwylo a defnyddio masgiau wyneb. At hyn, dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y canolfannau'n lân ac yn daclus. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eu brechiad ymhen deng munud i amser yr apwyntiad.

Gofal ag urddas

Gwelsom y gwirfoddolwyr a'r staff clinigol yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a pharchus bob amser yn ystod y ddau arolygiad â phwyslais penodol. Yn Aberpennar, roedd y cleifion yn eistedd mewn ardal aros fawr cyn i'r staff alw eu henw i gael eu brechu. Gwnaethom siarad am hyn â'r staff a chodi'r posibilrwydd na fyddai'r holl gleifion yn teimlo'n gysurus yn cael eu henw wedi'i alw allan yn uchel. Cytunodd y staff i ailedrych ar y trefniadau hyn a thra'r oeddem ar y safle cynigiwyd proses wahanol a oedd yn diogelu cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion yn well. Mae manylion hyn a materion eraill a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol yn Atodiad A.

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC eu bod yn teimlo bod modd iddynt gadw eu hurddas, eu preifatrwydd a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiad. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd sgriniau preifatrwydd ar gael yn y naill ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw, ac felly roedd modd i bobl

eraill weld cleifion yn cael eu brechu. Roedd y cleifion yn eistedd yn eithaf agos at ei gilydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd hyn yn golygu y gallai gwybodaeth feddygol gyfrinachol gael ei chlywed gan gleifion eraill. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith ym mhob canolfan yn diogelu gwedduster, lle personol a chyfrinachedd y cleifion yn llawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a gaiff gwedduster, lle personol a chyfrinachedd y cleifion eu parchu'n llwyr wrth gael eu brechu.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion beth i'w wneud ar bob cam o'u taith drwy'r canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw, a oedd yn golygu bod y llif o gleifion yn effeithlon ac yn amserol drwy'r dydd.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Gwelsom fod y cleifion yn dod â cherdyn brechu a oedd yn dangos eu henw a dyddiad eu brechiad cyntaf. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael taflenni gwybodaeth ar ôl eu brechiad cyntaf a oedd yn rhoi gwybod iddynt am sgil-ffeithiau posibl a phryd i ofyn am help pe bai angen.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC eu bod yn hapus â'r ffordd yr esboniwyd pethau iddynt yn ystod eu hapwyntiad ac y rhoddyd cyngor ôl-ofal iddynt ar beth ddylent ei wneud pe byddent yn cael adwaith niweidiol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae'r canolfannau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yn amlwg bod llawer iawn o waith cynllunio a pharatoi wedi'i wneud i drawsnewid y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod pob lleoliad a ddefnyddir fel canolfan brechu torfol yn cydymffurfio'n llawn â'r holl bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch cyn agor. Gwelsom fod modd cadw pellter cymdeithasol diogel yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw a bod systemau un ffordd clir ar waith i'r cleifion a'r staff ym mhob rhan o'r lleoliad.

Roedd rhannau o'r adeilad ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dal i gael eu defnyddio fel swyddfeydd gan sefydliadau eraill, ond gwelsom eu bod yn cael eu gwahanu'n glir er mwyn sicrhau mai dim ond y cleifion a'r staff allai fynd i'r ardaloedd clinigol. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn olau, yn fawr ac yn lân.

Roedd y ganolfan yn Aberpennar wedi'i defnyddio'n flaenorol fel cyfleuster profion COVID-19 torfol. Roedd hyn yn golygu bod llawer o waith cynllunio a pharatoi eisoes wedi ei wneud ar y safle. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, gallem weld bod problemau gyda'r llawr dros dro oedd wedi'i osod dros y lleiniau bowllo. Roedd y llawr yn anwastad mewn mannau ac roedd y bilen ddiddos wedi dechrau rhwygo, gan greu'r perygl o faglu mewn sawl man. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r problemau, ond rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC ynghylch sut y bydd y llawr yn cael ei drwsio er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Gwelsom ddrysau tân mewnol yn y ganolfan yn Aberpennar yn cael eu cadw ar agor. Wrth edrych i weld a oedd asesiad risg tân yn lliniaru yn erbyn hyn, dywedwyd wrthym nad oedd un wedi'i gynnal o'r safle cyn ei ddefnyddio fel canolfan brechu torfol. Ni allai'r ganolfan ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddarparu tystiolaeth o asesiad risg tân pan ofynnwyd amdani ychwaith. Gwelsom fod cynlluniau gwacáu ar waith yn y ddwy ganolfan, ond nid oedd cofnod yn Aberpennar bod y staff wedi llofnodi'r cynllun gwacáu i ddangos eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni

ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yn ystod ein taith o'r ganolfan yn Aberpennar, gwelsom ddeunyddiau glanhau peryglus yn cael eu storio yn ystafelloedd newid y menywod. Roedd yr allwedd i'r ystafelloedd newid ar goll ac felly nid oedd modd cloi'r ystafell. Gwnaethom hysbysu rheolwr y safle am hyn a drefnodd fod y deunyddiau glanhau'n cael eu symud i gwpwrdd dan glo yn ystod ein hymweliad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llawr yng nghanolfan Aberpennar yn cael ei drwsio a'i fod yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom y staff wrth fynedfeydd y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw yn asesu'r cleifion am symptomau COVID-19 cyn gadael iddynt fynd i mewn, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer dda. Atgoffwyd y cleifion hefyd o'r angen i wisgo masg oni bai eu bod yn cael eu heithrio rhag gwneud hynny. Gwelsom fod poteli o hylif diheintio dwylo ar gael wrth y mynedfeydd ac mewn amryw leoedd ym mhob rhan o'r canolfannau er mwyn annog hylendid dwylo da.

Gwelsom fod y staff clinigol yn gwisgo masgiau ac yn diheintio eu dwylo rhwng gweld cleifion. Nid oedd cyfleusterau golchi dwylo ar wahân i'r staff ar gael gerllaw'r manau brechu yn y naill ganolfan na'r llall; roedd yn rhaid i'r staff ddefnyddio'r sinciau yn y toiledau i olchi eu dwylo. Yn Aberpennar, roedd y toiledau'n cael eu rhannu â'r cyhoedd ac roedd yn rhaid i'r staff agor y drysau'n gorfforol i fynd yn ôl i'w man brechu. Mae defnyddio llawer o fannau cyffwrdd yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint, felly rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau golchi dwylo yn y ddwy ganolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod modd cadw dwylo'n lân.

Gwelsom y staff clinigol yn glanhau eu man brechu a'r cadeiriau rhwng pob claf yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw, a gwelsom y staff yn sychu'r cadeiriau ar ôl i'r cleifion adael yr ardaloedd aros.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gwelsom fod yr archwiliadau hylendid dwylo wedi'u cynnal yn rheolaidd er mwyn monitro cydymffurfiaeth staff. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau atal a rheoli heintiau pellach yn cael eu datblygu a byddent yn cael eu gweithredu ym mhob canolfan o fewn y bwrdd iechyd. Gwnaethom sylwi yn y ddwy ganolfan fod rhai staff clinigol yn gwisgo gemwaith ac nid oedd eu gwallt wedi'i glymu'n ôl. Gwnaethom drafod hyn ag uwch-aelodau o'r staff, a

gadarnhaodd nad oedd hyn yn unol â gweithdrefnau safonol atal a rheoli heintiau. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau archwilio sy'n cael eu cynnal ym mhob canolfan er mwyn sicrhau eu bod yn monitro cydymffurfiaeth â'r holl safonau perthnasol er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i'r holl staff clinigol fod wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyn dechrau eu swydd fel brechwr yn unrhyw un o'r canolfannau brechu torfol o fewn y bwrdd iechyd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn y canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw eu bod wedi cael eu brechlun COVID-19 a bod y staff yn gallu cael profion llif unffordd rhag ofn iddynt ddechrau cael symptomau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau golchi dwylo yn y ddwy ganolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod modd cadw dwylo'n lân.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gadw at bolisi gwisg y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau archwilio sy'n cael eu cynnal ym mhob canolfan brechu torfol er mwyn sicrhau eu bod yn monitro cydymffurfiaeth â'r holl safonau perthnasol er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel.

Rheoli meddyginiaethau

Darparwyd Polisi Rheoli Meddyginiaethau Brechlyn COVID-19 a'r ddogfen Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion i roi Brechlyn COVID-19 Pfizer-BioNTech i ni a oedd yn nodi'r canllawiau a'r fframwaith er mwyn sicrhau bod y bwrdd iechyd yn bodloni'r gofynion rheoleiddio a deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r defnydd o frechlynnau. Cafodd y rhain eu hategu gan amrywiaeth o weithdrefnau safonol eraill yn ymwneud â dosbarthu, storio, paratoi a rhoi'r brechlyn. Dywedwyd wrthym nad oedd yr un o'r canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw'n cael unrhyw broblemau o ran dosbarthu brechlyn Pfizer-BioNTech.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r brechlynnau COVID-19 yn ddiogel ym mhob canolfan y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd y brechlynnau'n cael eu storio'n briodol mewn oergelloedd wedi'u cloi dan oruchwyliaeth staff diogelwch. Roedd darlleniadau tymheredd pob oergell yn cael eu cofnodi gan y staff a'u lanlwytho i System electronig Imiwneiddio Cymru (WIS) er mwyn i gydweithwyr y fferyllfeydd eu monitro. Yn Aberpennar, roedd y darlleniadau hyn yn cael eu hysgrifennu ar nodiadau post-it ac yna'u cymryd yn

ôl i'r ardal frechu i'w cofnodi ar WIS. Gwelsom fod problemau gyda'r system hon mewn perthynas â'r potensial o golli neu gymysgu nodiadau post-it. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried dull arall yn Aberpennar sy'n diogelu'n well gywirdeb y tymereddau sy'n cael eu cymryd a'u cofnodi o'r oergelloedd.

Gwelsom fod brechlynnau'n cael eu darparu i'r brechwyr pan oedd ganddynt ddos neu ddau ar ôl i'w rhoi o'u ffiol gyfredol. Roedd y staff clinigol cofrestredig yn gyfrifol am dynnu'r brechlyn i fyny o flaen y brechwyr anghofrestredig, a fyddai'n arsylwi ac yna'n rhoi'r brechlyn eu hunain. Gwnaethom nodi bod y system hon i'w gweld yn gweithio'n dda yn y ddwy ganolfan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system sydd ar waith ym mhob canolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod tymereddau'r oergelloedd yn cael eu cymryd a'u cofnodi'n gywir ar WIS.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar dadebru brys ac adrenalin¹ ar gael ym mhob canolfan i ddarparu triniaeth ar unwaith petai rhywun yn cael adwaith anaffylactig² neu ataliad y galon ar ôl cael ei frechu. Yn Aberpennar, gwelsom fod rhywfaint o gyfarpar dadebru (fel masgiau wyneb) yn cael eu storio mewn bag a oedd wedi'i gloi gan sip â thag arno'n nodi'r dyddiad dirwyn i ben gan adran ddadebru'r bwrdd iechyd. Roedd tiwb o ocsigen a diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) yn cael eu storio wrth ymyl y bag yn yr ardal ddadebru.

Gwelsom drefn debyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, roedd bag y cyfarpar dadebru ar agor, ac nid oedd wedi'i gloi gan sip ac nid oedd tag arno'n nodi'r dyddiad dirwyn i ben gan adran ddadebru'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym nad oedd gwiriadau o gynnwys y bag yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y cynnwys o fewn eu dyddiadau dirwyn i ben a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

¹Meddyginiaeth a ddefnyddir i drin sioc ddifrifol a achosir gan adwaith alergaidd difrifol neu lewygu yw adrenalin.

² Adwaith alergaidd difrifol a all beryglu bywyd yw adwaith anaffylactig. Gall ddigwydd o fewn eiliadau neu funudau o ddod i gyswllt â meddyginiaeth.

Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd gwiriadau o'r AED yn cael eu cynnal yn y naill safle na'r llall.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ceisiodd ein hadolygwr cymheiriaid clinigol ganiatâd gan rai o'r cleifion a'r staff i arsylwo ar y gofal a roddir i'r cleifion yn y man brechu. Cawsom sicrwydd yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw fod y cleifion yn cael asesiadau priodol i sicrhau eu bod yn addas i gael y brechlyn a bod y cleifion yn cael y wybodaeth gywir er mwyn rhoi cydsyniad gwybodus cyn cael eu brechu.

Yn Aberpennar, gwelsom fod ardal ddadebru wedi'i chreu y tu ôl i sgriniau wrth yr ardal aros er mwyn rhoi triniaeth a phreifatrwydd i'r cleifion a oedd yn teimlo'n anhwylyd. Roedd troli ar olwynion ar gael er mwyn sicrhau bod modd symud y cleifion i ffwrdd o'r ardal aros. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd yr ardal ddadebru mewn ystafell stoc fach ac roedd troli heb olwynion y tu mewn. Hwyrach yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried a fyddai creu ardal ddadebru debyg i'r un yn Aberpennar yn fwy manteisiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gwnaethom nodi bod adrenalín ar gael ym mhob man brechu er mwyn iddo allu cael ei roi'n gyflym mewn argyfwng. Yn Aberpennar, gwelsom drefniant gwahanol, lle'r oedd yr adrenalín yn cael ei storio ar ddesgiau ar wahân ar bob pen o'r ganolfan yn unig. Gwnaethom drafod y gwahaniaethau hyn â'r uwch-aelodau o'r staff clinigol, a gytunodd y byddai'r adrenalín yn cael ei roi'n gynt i'r cleifion petai ar gael ym mhob man brechu. Gwelsom fod y staff eisoes yn dechrau rhoi hyn ar waith cyn i ni adael y safle.

Cadw cofnodion

Roedd modd i'r staff clinigol fynd ar eu gliniadur eu hunain i gofnodi manylion yn electronig ar System Imiwneiddio Cymru am bob brechiad maent yn ei roi, fel hanes meddygol y cleifion a gwybodaeth am y brechlyn a roddwyd. Mae'r system, a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn ei gwneud yn bosibl i'r bwrdd iechyd gael gwybodaeth am nifer y brechiadau a roddwyd er mwyn olrhain hynt y rhaglen frechu a monitro faint o gleifion sy'n cael eu brechu.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r canolfannau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cyn i ni gynnal yr elfen o'n harolygiadau ar y safle, gwnaethom gais am dystiolaeth a gwybodaeth gan y bwrdd iechyd mewn cysylltiad â threfniadau llywodraethu'r rhaglen frechu. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod strwythurau ar waith i oruchwyllo'r ffordd y caiff rhaglen frechu COVID-19 ei chyflawni gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, datgelodd ein sgysiau â'r staff ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddiffyg ymwybyddiaeth amlwg o ran pa uwch-reolwyr oedd yn gyfrifol am gyflawni'r rhaglen. Gwnaethom drafod hyn ag Uwch-swyddog Cyfrifol y rhaglen a roddodd wybod i ni eu bod wrthi'n ymweld â phob un o'r canolfannau brechu torfol o fewn y bwrdd iechyd. Gwnaethom groesawu'r dull hwn a byddem yn annog cyswllt rheolaidd rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff ym mhob un o'r canolfannau o fewn y bwrdd iechyd er mwyn gwella cyfathrebu a rhoi gwybod am unrhyw broblemau ansawdd a diogelwch.

Darparwyd y gweithdrefnau safonol a grëwyd ar gyfer y canolfannau brechu torfol a oedd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2021. Pwrpas y ddogfen oedd nodi'r trefniadau lleol a oedd ar waith yn y canolfannau er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y broses frechu yn cael ei chyflawni'n ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, ni allai'r staff a oedd yn gweithio yn y naill ganolfan ddarparu copi o'r gweithdrefnau safonol ar gyfer eu canolfan. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y mesurau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y canolfannau'n adlewyrchu'r rhai a amlinellwyd yn y gweithdrefnau safonol. Gwnaethom drafod hyn ag uwch-aelodau o'r staff, a gadarnhaodd nad oedd y gweithdrefnau safonol yn gywir. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau safonol perthnasol ar gyfer y canolfannau y maent yn gweithio ynddynt, a'u bod wedi deall a darllen y cynnwys.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Yn dilyn ein trafodaethau â'r uwch-aelodau o'r staff, roedd hi'n amlwg bod dynodi'r gweithlu a'i argaeledd, ynghyd â mynediad i leoliadau addas, yn heriau parhaus i'r bwrdd iechyd. Gan fod y rhaglen frechu'n newid yn gyflym, mae'r staff yn cael eu hadleoli'n aml er mwyn darparu adnoddau ychwanegol lle bo angen. Mae hyn wedi golygu na fu modd cael parhad yng ngweithluoedd y canolfannau bob amser. Gwelsom fod nifer priodol o wirfoddolwyr, gweinyddwyr a staff clinigol ar y safle yn ystod y ddau arolygiad â phwyslais penodol, er mwyn rhoi'r brechiadau a drefnwyd ar gyfer y diwrnodau hynny yn ddiogel. Fodd bynnag, teimlai rhai o'r uwch-aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent wedi cael eu cefnogi bob amser gan yr uwch-reolwyr pan ofynnwyd iddynt weithio mewn canolfannau eraill. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch-aelodau o'r staff yn cael cefnogaeth ddigonol a gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu lleol wrth iddynt symud i weithio ac arwain mewn canolfannau eraill.

Dywedwyd wrthym fod y gwaith o drefnu'r rotas staff yn cael ei reoli'n ganolog ar hyn o bryd, ond nodwyd nad oedd hyn i'w weld yn gweithio'n effeithiol; rhoddodd rhai o'r aelodau o staff wybod i ni y gallai'r cyfathrebu ar agweddau amrywiol ar y rotas gael ei wella. Dywedwyd wrthym mai'r uwch-aelodau o'r staff clinigol ym mhob un o'r canolfannau fyddai'n dod yn gyfrifol yn fuan am y gwaith o drefnu'r rotas staffio i'w rheoli'n lleol. Rydym yn croesawu'r newid hwn, oherwydd dylai wella cyfathrebu a thryloywder i'r staff sy'n gweithio ym mhob canolfan.

Dywedwyd wrthym fod staff clinigol cofrestredig yn gyfrifol am oruchwylio hyd at dri o frechwyr heb eu cofrestru ar y tro. Yn Aberpennar nid oedd hi'n glir ar unwaith pa aelodau o'r staff oedd yn gyfrifol am y brechwyr heb eu cofrestru. Hwyrach yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried gweithredu system gliriach i ddangos hyn er mwyn sicrhau eglurder, yn enwedig wrth drosglwyddo rhwng sifftiau.

Er nad oedd y staff clinigol cofrestredig yn darparu goruchwyliaeth uniongyrchol, nid oedd y brechwyr heb eu cofrestru y gwnaethom siarad â nhw ar y naill safle yn teimlo bod hyn yn broblem, ac roeddent yn teimlo bod eu goruchwylwr yno bob amser i drafod unrhyw bryderon a oedd ganddynt pan fo angen.

Dywedwyd wrthym fod 'sgrymiau diogelwch' byr yn cael eu cynnal bob bore i'r uwch-aelodau o'r staff clinigol i gyfleu pwyntiau allweddol, materion a chymau gweithredu i'r staff, a nodwyd bod hyn yn arfer dda. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir rhoi'r diweddariadau hyn i'r staff sy'n cyrraedd i weithio sifftiau hwyrach i'r un graddau fel bod ganddynt yr un wybodaeth â'r staff eraill.

Rhaid i'r brechwyr newydd fodloni'r gofynion hyfforddiant perthnasol a chael eu hasesu'n gymwys gan oruchwylwyr penodol cyn gallu brechu heb oruchwyliaeth. Rhaid i staff sydd eisoes â sgiliau brechu gwblhau'r un hyfforddiant gofynnol ond gallant ddefnyddio adnodd asesu cymhwysedd brechwyr COVID-19 i hunanasesu a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff clinigol yn cael pecyn sefydlu cyn dechrau yn eu rôl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch-aelodau o'r staff yn cael cefnogaeth a gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau llywodraethu lleol wrth iddynt symud i weithio ac arwain mewn canolfannau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiadau â phwyslais penodol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws canolfannau brechu eraill yn y bwrdd iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canfyddiadau yn atodiadau A, B ac C.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol

Byddwn fel arfer yn rhoi rhywfaint o rybudd o'n harolygon â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dweud wrth y bwrdd iechyd y byddwn yn ymweld â nifer o ganolfannau yn ystod cyfnod penodol o amser, ond ni fyddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth. Yna gall y bwrdd iechyd baratoi rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnom ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu y gallwn dreulio llai o amser ar y safle, ac felly bydd yr arolygiad â phwyslais penodol yn amharu cyn lleied â phosibl ar y cleifion a'r staff.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad â phwyslais penodol, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae'r canolfannau'n cyrraedd rhannau perthnasol o [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn â phwyslais penodol yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn canolfannau brechu torfol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu datrys yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol.

Pryderon a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Yn Aberpennar, roedd y cleifion yn eistedd mewn ardal aros fawr cyn i'r staff alw eu henw i gael eu brechu.	Mae'n bosibl nad yw rhai cleifion yn teimlo'n gysurus yn cael eu henw wedi'i alw allan yn uchel am resymau personol.	Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o'r staff a rheolwr y safle am ein pryderon.	Rhoddwyd system newydd o roi gwybod i'r staff pwy oedd nesaf i gael eu brechu ar waith heb orfod galw enw'r claf allan. Roedd y system newydd yn sicrhau bod cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion yn cael eu diogelu'n well.
Yn Aberpennar, roedd deunyddiau glanhau peryglus yn cael eu storio mewn ystafell heb ei chloi.	Gallai'r cleifion neu'r staff gael eu niweidio o gael gafael ar ddeunyddiau glanhau peryglus.	Gwnaethom siarad â rheolwr y safle am ein pryderon.	Aeth y rheolwr ati i drefnu bod y deunyddiau glanhau'n cael eu symud i gwpwrdd clo yn ystod ein hymweliad.
Yn Aberpennar, roedd yr adrenalín yn cael ei storio ar ddesgiau ar	Mae'n bosibl y bydd oedi wrth roi adrenalín i gleifion os dydynt wedi dioddef adwaith	Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o'r staff clinigol am ein pryderon.	Gwnaeth y staff drefniadau i storio'r adrenalín ym mhob man brechu, a oedd yn

wahân ar bob pen o'r ganolfan yn unig.	anaffylactig mewn man brechu.		unol â'r trefniadau yng nghanolfan Pen-y-bont ar Ogwr.
--	-------------------------------	--	--

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Canolfannau: Ravens Court a Chanolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon

Dyddiad arolygu: 03 – 04 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yn yr arolygiadau â phwyslais penodol, gwnaethom edrych ar y cyfarpar dadebru sydd ar gael yn y ddwy ganolfan. Yng Nghanolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon, gwelsom fod rhywfaint o gyfarpar dadebru (fel masgiau wyneb) yn cael eu storio mewn bag a oedd wedi'i gloi gan sip â thag arno'n nodi'r dyddiad dirwyn i ben gan adran ddadebru'r bwrdd iechyd. Roedd tiwb o ocsigen a diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) wedi eu storio wrth ymyl y bag yn yr ardal ddadebru. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd gwiriadau o'r AED yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau ei fod yn dal i weithio a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p> <p>Gwelsom drefn debyg yn Ravens Court. Fodd bynnag, roedd bag y cyfarpar dadebru ar agor, ac</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2.1 / 2.9 / 3.1</p>	<p>Mae pob Canolfan Frechu Gymunedol wedi cael cyfarpar dadebru yn unol â'r canllawiau lleol ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng yn y gymuned.</p> <p>Diffibriliwr - rhestr wirio ddyddiol wedi'i datblygu gan yr Uwch-nyrs a'i gweithredu gan Arweinwyr Tîm gan sicrhau bod yr amser/dyddiad yn cael eu cofnodi'n glir a'u llofnodi gan y Goruchwyliwr Clinigol. Bydd arweinydd tîm/arweinydd sesiwn y Ganolfan Brechu Torfol yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol ac yn cwblhau'r gwiriad</p>	<p>Uwch-nyrs ac Arweinwyr Tîm</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>nid oedd wedi'i gloi gan sip ac nid oedd tag arno'n nodi'r dyddiad dirwyn i ben gan adran ddadebru'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym nad oedd gwiriadau o gynnwys y bag na'r AED yn cael eu cynnal.</p> <p>Felly, ni allem fod yn sicr bod system ar waith yn y naill ganolfan i sicrhau bod yr holl gyfarpar angenrheidiol i ddadebru'r cleifion mewn cyflwr da, o fewn y dyddiadau dirwyn i ben a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau wedi'u dogfennu'n rheolaidd o'r cyfarpar dadebru'n cael eu cynnal ym mhob canolfan brechu torfol ar draws y bwrdd iechyd yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).</p>		<p>dyddiol. Mae pob un o'r Arweinwyr Tîm wedi cael cyfarwyddyd ac wedi gweithredu'r daflen wirio ddyddiol isod fel rhan o'u trefn ddyddiol.</p> <p>Rhaid i'r bagiau dadebru gael eu cloi â sip gyda dyddiad dirwyn i ben. Dylai'r Arweinwyr Tîm yn y 6 Chanolfan Brechu Torfol wirio'r bagiau a lle nodir nad yw'r cloeon sip/dyddiad dirwyn i ben yn eu lle, bydd yr Arweinydd Tîm yn cysylltu â'r Adran Ddadebru ar unwaith gyda'r bwriad o gywiro hyn fel mater o flaenoriaeth. Mae pob un o'r Arweinwyr Tîm wedi cael cyfarwyddyd ac wedi gweithredu'r daflen wirio ddyddiol fel rhan o'u trefn ddyddiol.</p>		
<p>Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff yn y ddwy ganolfan. Gwelsom ddrysau tân mewnol yng Nghanolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon yn cael eu cadw ar agor. Gwnaethom ofyn i'r staff a oedd unrhyw fesurau lliniaru yn yr asesiad risg</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2.1 / 3.2</p>	<p>Cynhaliwyd asesiadau iechyd a diogelwch tân ym mhob lleoliad cyn iddynt gychwyn.</p> <p>Cyfeiriwyd at yr asesiadau hyn ym Mhecyn Llywodraethu'r Lleoliadau</p>	<p>Wayne Lewis - Arweinydd Lleoliadau ac Isadeiledd</p>	<p>Cwblhawyd y mwyafrif, gyda rhai i'w cwblhau ar 27 Mawrth 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>tân i ganiatáu ar gyfer hyn a dywedwyd nad oedd asesiad risg tân wedi'i gynnal o'r safle. Ni allai Ravens Court ddarparu tystiolaeth o asesiad risg tân pan ofynnwyd amdani ychwaith.</p> <p>Yn ystod ein trafodaethau â'r staff yn Ravens Court, gwnaethom nodi nad oedd rhai o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a oedd ar waith i wacáu'r safle'n ddiogel. Gwelsom fod cynlluniau gwacáu ar waith yn y ddwy ganolfan, ond nid oedd cofnod yng Nghanolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon fod y staff wedi llofnodi'r cynllun gwacáu i ddangos eu bod wedi darllen a deall ei gynnwys.</p> <p>Ni allem felly fod yn sicr y byddai'r cleifion a'r staff yn ddiogel pe bai argyfwng yn y naill ganolfan neu'r llall.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <p>Darparu tystiolaeth i AGIC fod adolygiad a diweddariad uniongyrchol wedi'i gwblhau ar gyfer pob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod pob person yn yr adeilad yn cael ei ddiogelu ac y dilynir canllawiau cenedlaethol.</p>		<p>Brechu Cymunedol, sef dogfen newydd sy'n ymgorffori'r ddwy set flaenorol o Weithdrefnau Safono clinigol ac anghlinigol. Cymeradwywyd y pecyn llywodraethu gan y Bwrdd Gweithredol ar Frechu, 11 Mawrth a'r Uwch Berchennog Cyfrifol.</p> <p>Gweler isod ddyfyniadau o Ddogfen Pecyn Llywodraethu Canolfannau Brechu Torfol BIPCTM sy'n darparu tystiolaeth i ddangos bod trefniadau a gweithdrefnau cyfredol wedi'u cryfhau ac yn dangos ymwybyddiaeth barhaus y staff a'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn yn achos argyfwng isod:</p> <p>Swyddog Cyfrifol Diogelwch Tân a Gwacáu</p> <p>Rydym wedi tanlinellu, ym mhob un o Weithdrefnau Safonol y lleoliadau, fod Rheolwr y Lleoliadau Cymunedol ar y Safle bellach yn swyddog cyfrifol mewn perthynas â sicrhau bod yr holl</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Darparu tystiolaeth i AGIC fod ymwybyddiaeth y staff o'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn pe bai argyfwng yn cael ei monitro'n barhaus.</p>		<p>staff, y staff clinigol ac anghlinigol, yn darllen ac yn llofnodi i ddweud eu bod yn deall y <i>Fire Safety and Evacuation Procedure</i> (tudalen 245). Mae hon wedi'i defnyddio ar bob safle ac mae bellach yn rhan wedi'i dogfennu o rôl Rheolwyr Lleoliadau ar y Safle, a chaiff dogfennaeth ar gyfer pob safle ei chadw at ddibenion archwilio.</p> <p>“It is the responsibility of the Community Vaccination Venue Site Manager responsible for the day to day management of the service, to ensure all staff/volunteers read and sign to say they understand the procedure via the ‘Fire Safety Information Emergency Procedure - Signing Sheet’ provided in the Appendices section of the Community Vaccination Centres Governance Pack”.</p> <p>Mae gan bob lleoliad Weithdrefn Diogelwch Tân a Gwacáu y gellir dod</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>o hyd iddi yn yr Atodiadau, Atodiad 6 (Tudalen 228) - Gweithdrefnau Argyfwng Gwybodaeth Diogelwch Tân Canolfannau Brechu Unigol - sydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Llywodraethu.</p> <p>Asesiadau lechyd a Diogelwch Tân y Lleoliad</p> <p>Mae'r Pecyn Llywodraethu bellach yn cynnwys Matrics Cydymffurfiaeth sy'n rhoi sicrwydd bod Asesiadau lechyd a Diogelwch Tân priodol wedi'u cynnal ym mhob lleoliad brechu. Gellir dod o hyd i hyn ar Dudalen 263.</p> <p>Mecanwaith i Ddiweddarau'r Staff ar y Gweithdrefnau a Newidiadau i'r Gweithdrefnau</p> <p>Bydd pob aelod o'r staff yn cael y cyfle i ddarllen y fersiwn ddiweddaraf a gymeradwywyd o weithdrefnau safonol eu lleoliad ac yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiwn mewn</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>perthynas â'u cynnwys i'w rheolwr llinell. Wedyn, gofynnir i'r staff lofnodi eu bod wedi darllen a deall yr holl weithdrefnau a'r mesurau a nodir yn y ddogfen. Mae'r daflen llofnodi i mewn yn Atodiad 8, Tudalen 245 - Gweithdrefnau Safonol Lleoliad ac Isadeiledd Canolfannau Brechu Cymunedol Generig - Taflen Lofnodi.</p> <p>Caiff Hyfforddiant Diogelwch Tân ESF ei gydnabod fel hyfforddiant gorfodol craidd. Mae Rheolwr ar y Safle'r Canolfannau Brechu Cymunedol bellach wedi'i enwebu fel y swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer yr hyfforddiant hwn i staff clinigol ac anghlinigol. Mae rhaglen hyfforddiant e-ddysgu wrthi'n cael ei dylunio a'r bwriad yw y bydd staff yn derbyn hyfforddiant erbyn 27 Mawrth 2021.</p> <p>O 27 Mawrth ymlaen - bydd y staff newydd yn mynd drwy'r Hyfforddiant</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Diogelwch Tân E-ddysgu fel rhan o'u proses sefydlu.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Clare Williams

Swydd: Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad ac Uwch-swyddog Cyfrifol Rhaglen Frechu COVID

Dyddiad: 12 Mawrth 2021

Atodiad C – Cynllun gwella

Canolfannau: Ravens Court a Chanolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon

Dyddiad arolygu: 03 – 04 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a gaiff gwedduster, lle personol a chyfrinachedd y cleifion eu parchu'n llwyr wrth gael eu brechu.	4.1 Gofal ag Urddas	<p>Mae'r arweinwyr clinigol a safleoedd ac aelodau'r Bwrdd Brechu Gweithredol wedi adolygu.</p> <p>Mae pob brechwr yn gweithio o fewn eu lle clinigol eu hunain gyda phob claf i gadw cyfrinachedd.</p> <p>Mae sgriniau clinigol gwyn neu ystafell frechu breifat ar gael ym mhob canolfan er mwyn cadw preifatrwydd ac urddas y claf pan fo angen.</p> <p>Caiff gwedduster, lle personol a chyfrinachedd y cleifion eu parchu drwy'r camau gweithredu hyn.</p>	Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llawr yng nghanolfan Aberpennar yn cael ei drwsio a'i fod yn ddiogel ac yn addas at y diben.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cafodd hyn ei adolygu a'i drafod yn y ddau Gyfarfod Bwrdd Brechu Strategol a Gweithredol. Yn dilyn penderfyniad a wnaed yn y Bwrdd Strategol ar 8 Ebrill, cafodd llawr newydd sbon ei osod yng Nghanolfan Fowlio Cwm Cynon ar benwythnos 24 a 25 Ebrill 2021.	Rheolwr Rhaglen y	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau golchi dwylo yn y ddwy ganolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod modd cadw dwylo'n lân.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol, ynghyd â chydweithwyr atal a rheoli heintiau, wedi adolygu'r cyfleusterau golchi dwylo ym mhob canolfan frechu er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r ateb gorau o gofio mai safleoedd dros dro yw'r rhain sy'n eiddo i sefydliadau 3ydd parti yn unig. Mae'r trefniadau presennol yn foddhaol o fewn y cyfyngiadau hyn ac mae archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd wedi'u cynnal a byddant yn parhau.	Uwch-nyrs Atal a Rheoli Heintiau	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gadw at bolisi gwisg y bwrdd iechyd.		Mae'r Arweinydd Clinigol wedi adolygu hyn gyda'r Arweinwyr Tîm ym mhob un o'r Canolfannau Brechu Cymunedol.	Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>O ganlyniad, pwysleisiwyd pwysigrwydd glynu wrth Bolisi Gwisg Cymru Gyfan i'r staff ym mhob lleoliad yn ystod y sesiwn frifio diogelwch ddyddiol.</p> <p>Bydd Arweinwyr Tîm pob canolfan frechu yn mynd i'r afael â monitro a diffyg cydymffurfiaeth.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgareddau archwilio sy'n cael eu cynnal ym mhob canolfan brechu torfol er mwyn sicrhau eu bod yn monitro cydymffurfiaeth â'r holl safonau perthnasol er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel.</p>		<p>Mae Arweinwyr y Canolfannau Brechu Cymunedol (sy'n cynnwys Rheolwr y Rhaglen, Arweinydd y Lleoliad a'r Arweinydd Clinigol) wedi adolygu'r gofyniad hwn ac yn cydnabod bod diogelwch y cleifion yn cwmpasu sawl maes a disgyblaeth mewn canolfan frechu. Rydym wedi cynnwys nifer o fesurau rheoli yn y rhestr wirio arolygu er mwyn sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth.</p> <p>Bydd archwiliad clinigol i'w gwblhau'n fisol yn sicrhau bod safonau diogelwch y cleifion yn cael eu cyrraedd (gweler tystiolaeth AG1 isod).</p>	<p>Arweinydd y Lleoliad a'r Arweinydd Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system sydd ar waith ym mhob canolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod tymereddau'r oergelloedd yn cael eu cymryd a'u cofnodi'n gywir ar WIS.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Adolygwyd hyn gan Arweinwyr y Canolfannau Brechu Cymunedol</p> <p>O ganlyniad i hyn, mae'r Arweinydd Clinigol wedi rhoi gwybod i'r holl Arweinwyr Tîm am y gofynion i gofnodi tymereddau dyddiol yr oergelloedd yn gywir ac yn amserol ar WIS. Mae pob un o'r arweinwyr tîm wedi</p>	<p>Arweinydd Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		darllen y weithdrefn safonol sy'n rhoi cyfarwyddiadau clir ar sut a phryd i gofnodi tymereddau'r oergelloedd ar WIS. Caiff monitro tymereddau'r oergelloedd ei gynnwys yn yr archwiliadau clinigol misol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau safonol perthnasol ar gyfer y canolfannau y maent yn gweithio ynddynt, a'u bod wedi deall a darllen y cynnwys.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae hyn wedi cael ei adolygu gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Caiff gweithdrefnau safonol eu hadolygu yn unol â'r amserlen a nodir yn y ddogfen. Mae gennym hefyd daflen frifio y mae'r staff yn ei llofnodi ar ôl darllen y weithdrefn safonol. Yn ogystal, rydym wedi adolygu proses a chynnwys ein 'Sesiwn Sefydlu Diogelwch' i'r staff a'r gwirfoddolwyr, ac rydym wedi rhoi proses newydd ar waith lle rydym yn cadw llofnodion pawb sy'n cael eu sefydlu.	Arweinydd y Lleoliad	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir.		Trafodwyd hyn rhwng Arweinwyr y Canolfannau Brechu Cymunedol. O ganlyniad, mae person cymwys sy'n gysylltiedig â gweithrediad y canolfannau brechu yn adolygu'r gweithdrefnau safonol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn	Arweinydd y Lleoliad a'r Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		berthnasol i'r arferion sydd ar waith yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y ddogfen.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch-aelodau o'r staff yn cael cefnogaeth a gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau llywodraethu lleol wrth iddynt symud i weithio ac arwain mewn canolfannau eraill o fewn y bwrdd iechyd.	7.1 Y Gweithlu	<p>Trafodwyd hyn rhwng Arweinwyr y Canolfannau Brechu Cymunedol ac mae'n cael ei gyflawni drwy gyfuniad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sesiynau Briffio a Sefydlu Penodol i'r Staff - Cyswllt a chyfathrebu rheolaidd gydag adroddiadau uniongyrchol yn cynnwys diweddariadau o Gyfarfodydd Bwrdd Strategol a Gweithredol. <p>Cynhelir cyfarfodydd arweinwyr tîm wythnosol parhaus gyda'r Uwch-nyrs a rhai aelodau o'r bwrdd gweithredol. Arweinwyr Tîm yn cael diweddariadau rheolaidd drwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a sesiynau hyfforddiant.</p>	Arweinydd Clinigol ac Arweinydd y Lleoliad	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Stephen Robbins

Swydd: Rheolwr y Rhaglen

Dyddiad:

30 Ebrill 2021